
# Papur Pawb

Mehefin 2020 Rhif 460

Barnu yn sioe Tal-y-bont eleni...


| | | | |
|---|---|---|---|
| tud 3 | tud 5 | tud 10 | tud 12 |
| Pobl a Phethe | Grŵp *COVID-19* | Coron ei Gyrfa | Taro'r Bêl Wen |


# TIPYN O SIOE

Bydd Sioe Tal-y-bont yn cael ei chynnal eleni ac ar y diwrnod arferol sef Sadwrn olaf Awst, y 29ain. Hwnna yr un fath ond oherwydd cyfyngiadau *Covid-19* fe fydd y digwyddiad yn hollol wahanol. Dim pabell, dim maes ond sioe rithiol a'r cyfan yn digwydd ar y we ac ar *Facebook*. Bu pwyllgor y Sioe yn cyfarfod ar *Zoom* yn gyson o dan gadeiryddiaeth Enoc Jenkins Tŷ'n Graig a'r teimlad o'r cychwyn cyntaf oedd na ddylid gadael bwlch. Ffactor ychwanegol oedd gweld cymaint o ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys y Sioe Fawr yn cael eu canslo ac o'r herwydd y calendr amaethyddol yn wag a llwm.

Yn y sioe rithiol bydd cystadlaethau gwartheg, defaid, rhai ceffylau, dofednod ac wyau a'r tywysydd ifanc. Yna detholiad o ddosbarthiadau mwyaf poblogaidd y babell yn yr adrannau cynnyrch gardd, mêl, crefft, coginio a ffotograffiaeth. At hyn fe geir cystadlaethau newydd i blant a ieuenctid sy'n bosib eu gwneud adref yn addas i'r math hyn o sioe – er enghraifft gwisgo eich rhieni fel bwgan brain!

A shwt fydd hyn i gyd yn gweithio? Bydd dyddiad cau tair wythnos cyn diwrnod y Sioe ac ar y dyddiad hwnnw bydd rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno llun neu fideo munud o hyd. Felly os oes gyda chi ddarpar bencampwraig o fuwch neu ddafad, os chi'n arbenigwr ar addurno cacen neu gyda'r gorau mewn ffotograffiaeth chi'n cyflwyno llun neu fideo, boed o'r ddafad neu'r gacen. Drosodd at y beirniaid wedyn a rheini yn cael wythnos i gwblhau eu gwaith. Yna ar y 29ain fe rhyddheir y canlyniadau gydol y diwrnod ar wefan y Sioe ac ar *Facebook*.

Mae Enoc yn cyfaddef i'r profiad fod yn heriol ond roedd yntau a'r Pwyllgor yn benderfynol o gynnal Sioe ac i greu digwyddiad yn llawn hwyl a sbri. Maent wedi cynllunio'n ofalus a thrwy ddefnyddio technoleg yn ddyfeisgar maent wedi gosod sioe gyda dros ganrif o hanes yn solet yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n galonogol gweld y parodrwydd i fentro ac ysbryd arloesol yn y cyfnod anodd hwn. Glaw neu hindda mae'r sioe yn digwydd!

Bydd rhagor o fanylion ar dudalen *Facebook* 'Sioe Talybont Ceredigion' ac ar y wefan www.sioetalybontshow.com yn y man.



Sioe 2017



Y parêd yn Sioe 1932 Llun drwy garedigrwydd Lisa Evans




## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| Golygydd Cyffredinol: | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | (01970) 832560 |
| Tynnu lluniau: | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | GOHEBYDDION LLEOL | |
| Tal-y-bont: | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | 832592 |
| Maes-y-deri: | Karren Roberts | 07800 806578 |
| Parsel Henllys: | Lynwen Morgan | 832498 |
| Bont-goch: | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | 832566 |
| Tre Taliesin: | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | 832230 |
| Tre'r-ddôl: | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl | (01654) 781260 |
| Eglwysfach/Ffwrnais: | Non Griffiths | (01654) 781264 |
| Rhwydweithiau cymdeithasol: | Ceri Morgan | |
| | CYMDEITHAS PAPUR PAWB | |
| Cadeirydd: | Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont | 832697 |
| Is-gadeirydd: | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | 832566 |
| Ysgrifennydd: | Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont | 832344 |
| Trysorydd: | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | 832093 |
| Tanysgrifiadau: | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | 832448 |
| Hysbysebion: | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont | 832076 |
| Plygu'r Papur: | Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins | |
| Dosbarthwyr: | Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams | |

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)
CYMRAEG


### GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Eirian a Geraint gydag Iolo yn dylunio. Diolch iddynt.
Yn ôl yr arfer, mae *Papur Pawb* yn cael gwyliau dros yr haf.
Gwyn a Fal (golygydd@papurpawb.com) fydd yn golygu rhifyn Medi.
Y dyddiad cau yw 4 Medi a bydd y papur ar werth ar 11 Medi.

### CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Oherwydd yr amgylchiadau, ni fyddwn yn cynnal cyfarfod blynyddol Cymdeithas Papur Pawb tan yr hydref.

Mwy o fanylion i ddilyn.

### DYDDIADUR

Does dim Dyddiadur Papur Pawb yn y rhifyn hwn oherwydd yr amgylchiadau presennol ond pan fydd y cyfyngiadau yn llacio cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.


**LRJ**

**Plymio cyffredinol a chynhaliaeth**
Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk


## Llythyr

Moelgoch, Talybont

Annwyl Olygydd,
Erbyn nawr, siŵr o fod , mae nifer o'ch darllenwyr wedi clywed am y cais cynllunio i fyny'r cwm a enwir Cwm Tŷ-nant ar y map.

Mae'r cais wedi tynnu sylw yn eang am ei fod yn un sylweddol mewn safle lleol. Mae'n gofyn am ganiatâd i gael bron erw a hanner o adeiladau i gadw ieir er mwyn eu gwerthu fel cig. Nid gwrthwynebu'r cais yw'r rheswm y tu ôl i'r llythyr hwn.

Ond rhaid cyfaddef mae rhyw faint o siom arnaf fod ein Cyngor Cymuned (Ceulanmaesmawr) ddim yn gallu rhoi arweiniad i ni drigolion Tal-y-bont a'r cylch ar y mater. Er ei fod yn gais sylweddol, mae'r Cyngor ddim am fynegi barn gan benderfynu cynnig dim sylwadau i Gyngor Ceredigion, yr awdurdod sydd i benderfynu ar y cais.

Gallaf ddim meddwl bod hwn yn benderfyniad derbyniol i'r rhai mae'r Cyngor Cymuned i fod i'w cynrychioli na ffordd addas i'r Cyngor drafod busnes. Nid rhyw ychwanegiad bach i ryw dŷ yw y cais ond rhywbeth o bwys llawer yn fwy. Mae o bwys i'r ymgeisydd a dyfodol ei fywoliaeth, a hefyd o ddiddordeb i eraill fel y mae'r cyhoeddusrwydd yn dangos. Serch hynny, nid yw'r Cyngor Cymuned yn rhoi barn.

Os oes anghytundeb tu fewn y Cyngor, yn y diwedd, ar ôl dadlau'r pwnc, y ffordd ymlaen yw cael yr aelodau i bleidleisio dros y pwnc gwreiddiol. Mae pleidlais i ddweud dim yn ddirymiad o gyfrifoldeb y Cyngor i ni'r cyhoedd.

John Morgan

**Sylw gan y Golygydd Cyffredinol**: Diolch i John Morgan am ei sylwadau. Mae *Papur Pawb* yn croesawu trafodaeth ar faterion o bwys i'r gymuned. Mae clerc y Cyngor Cymuned, Mr Rab Jones, wedi cadarnhau i'r Cyngor drafod y cais cynllunio yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr a phenderfynu peidio â chynnig sylw. Mae'r cais bellach yn nwylo'r Cyngor Sir sydd â'r awdurdod i benderfynu ar ei dynged, yn unol â'r canllawiau perthnasol.

**Cymorth Cristnogol 2020**
Fel arfer, erbyn yr adeg hon o'r flwyddyn, byddai casglwyr Wythnos Cymorth Cristnogol yr ardal wedi bod yn brysur yn dosbarthu ac yn casglu'r amlenni ac fe fyddai darllenwyr Papur Pawb wedi gweld adroddiad o'r cyfanswm a gasglwyd yn ardal Tal-y-bont. Eleni wrth gwrs mae'r firws wedi rhwystro'r gweithgarwch arferol ond mae modd i chi wneud cyfraniad yn uniongyrchol at waith gwerthfawr yr elusen os ydych yn dymuno a hynny mewn sawl ffordd.
Gallwch gyfrannu
Ar lein trwy https:// www.christianaid.org.uk/
Dros y ffôn 08080 006 006 (Swyddfa Cymorth Cristnogol Llundain)
Danfon siec i Swyddfa Cymorth Cristnogol, 75 Heol Dŵr, Caerfyrddin, SA31 1TY
Diolch am unrhyw gyfraniadau at y gwaith pwysig yma sy'n cydweithio gyda phobl a chymunedau ledled y byd i geisio dileu tlodi.
Janet Jones


APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**T** 01970 832142 **M** 07703 169813
Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
**E** alun.davies142@btinternet.com





**Eglwys St. Pedr, Bont-goch**
Ni fu gwasanaethau yn yr Eglwys ers y cloi lawr 10 wythnos yn ôl. Fodd bynnag, arbrofwyd yn llwyddiannus gyda gwasanaeth yr hwyrol weddi ar *Zoom* ar Sul y Pentecost. Roedd y gwasanaeth Cymraeg hwn yn agored i addolwyr holl eglwysi gofalaeth Bro Padarn, ac o dan ofal y Parchg Ganon Andrew Loat gyda chymorth Y Parchg Lyn Lewis Dafis.

**Swydd newydd**
Pob dymuniad da i Delyth Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont, yn ei swydd newydd fel rheolwr Academaidd yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Croeso**
Croeso cynnes i'r artist adnabyddus Pete Monaghan sydd newydd symud yn ôl i fyw i Dal-y-bont, ond y tro hwn i Stryd y Capel. Mae'n amlwg fod y pentref yn golygu tipyn iddo, fel i nifer ohonom.

**Pen-blwyddi Arbennig**
Pen-blwydd Hapus ychydig yn hwyr i Phil Regan, Free Trade Hall, Taliesin a ddathlodd ben-blwydd arbennig 18 Ebrill eleni ac i Mai Leeding, Glannant, Taliesin a ddathlodd ben-blwydd yr un mor arbennig 15 Mai. Hefyd i Sylvie Fombonne, Llety Llwydin, Tre'r-ddôl a ddathlodd ben-blwydd arbennig 3 Mai. Pob dymuniad da i chi i gyd.

**Newyddion Da**
Braf iawn yw clywed bod Rod Mayhew, Suncot, Taliesin yn gwella ar ôl ei ddamwain ym mis Ebrill.

**Symud Tŷ**
Mae Linda Lionel, 1 Wesley Terrace, Taliesin wedi symud i fyw i Gnwch-coch. Byddwn ni'n gweld ei heisiau'n fawr ond yn dymuno pob hapusrwydd iddi yno.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Neilson Stirling, Hafod Elerch, Bont-goch ar ddod yn dad-cu. Ganwyd Arthur Eric Graham ar 1 Mai 2020 i'w ferch Rosie a'i phriod Tom Fitzgerald sy'n byw yn Walton-on-Thames, Surrey. Dymuniadau gorau i'r teulu.

**Newid Aelwydydd**
Dymuniadau gorau i Keith Evans, Pen-y-graig, Bont-goch sydd wedi symud i fyw i fflatiau'r Emporium yn Nhal-y-bont.

# Pobl a Phethe



Llun gan Dylan Morgan

**TÂN GER LLYN CONACH**

Cafwyd tân sylweddol ger Llyn Conach uwchben Ffwrnais. Cafodd y gwasanaethau brys eu galw ar brynhawn Sul Mai 17 a bu criwiau tân o Aberystwyth, Machynlleth, Llandrindod, Aberdyfi a Llanfair Caereinion yn ymladd y fflamau. Hefyd fe alwyd am gymorth hofrennydd Adnoddau Naturiol Cymru. Gymaint y fflamau fel bod modd gweld y mwg 20 milltir i ffwrdd. Mae sïon fod y tân wedi ei gynnau yn fwriadol gan rai oedd yn campio mewn coedwigoedd ar lan y llyn er gwaethaf cyfyngiadau y cloi mawr. Llosgwyd tir ym mherchnogaeth teulu Alltgoch, Tal-y-bont ond llwyddwyd i symud defaid o'r fan mewn pryd. Mewn datganiad dywedodd Adnoddau Naturiol Cymru fod y tân oedd dros ucheldir o 64 hectar wedi achosi difrod o hanner miliwn.

Dymunwn yn dda i Meleri Mair, Tŷ Capel, Bont-goch yn ei chartref newydd yn Llanuwchllyn, ger Y Bala. Ar hyn o bryd mae Meleri yn aros dros dro gyda'i chwaer Branwen yng Nghaerfyrddin.

**Cydymdeimlo**
A hithau wedi croesi'r cant bu farw Mrs Valma Jones, Wern, Tal-y-bont. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

Cydymdeimlwn â Myra Price, Cartrefle, Tal-y-bont ar farwolaeth ei chwaer yn Seland Newydd.

Hefyd estynnwn ein cydymdeimlad â Margaret Jenkins, Tŷ'n Graig ar farwolaeth modryb iddi yng Nghilcennin.

**Penblwydd Priodas Perl**
Llongyfarchiadau i Gareth a Gwladys Evans, Penrhiw, Bont-goch ar ddathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol ar 2 Mehefin. Dymuniadau da ar gyfer y dyfodol.

**Cerrig Milltir i'w Dathlu**
Dymuniadau gorau i Bethan Benham, Llonio, Goetre, sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ar y 9fed o fis Mehefin. Dathlodd Nia ei chwaer ei chwaer ei phen-blwydd yn 16 oed ar ddiwedd mis Mawrth, reit ar ddechrau'r 'caethiwo mawr', tra cafodd Sue Byrne, eu mam, 'ben-blwydd arbennig' ym mis Ebrill. Dyma nodyn addewid swyddogol gan Stephen Benham i drefnu dathliad arbennig i'r tair unwaith daw'r hunan-ynysu i ben!

**Ocsiwn byd-eang**
Yn ystod mis Mai cynhaliodd Marchnad Ffermwyr Dolgellau y '*World First Timed Internet Auction'* un ar gyfer cŵn defaid a'r llall ar gyfer gwartheg duon Cymreig a hynny ar y we. Ymhlith y cŵn a werthwyd oedd Jan oedd yn berchen i Dewi Jenkins, Tŷ'n Graig. Prynwyd y ci gan unigolyn o Ffrainc ond oherwydd cyfyngiadau y cloi mawr ni fu'n bosib allforio i'r cartref newydd hyd yn hyn. Yna ar Ffermio gwelwyd Alun Elidir, Simne Wen yn teithio o'i fferm yn Rhydymain i gasglu tarw a brynodd yntau ar y we. Mae'r ddwy ocsiwn arloesol yn dangos sut y gellir defnyddio'r dechnoleg i oresgyn anawsterau a chyrraedd marchnad byd-eang. Plis peidiwch â holi sut y gellir asesu potensial tarw heb ei weld yn y cnawd!

**Treialon Cŵn Defaid**
Oherwydd yr amgylchiadau mae'r treialon cŵn defaid oedd i'w cynnal yn Llety Ifan Hen, Bont-goch ar Awst 5ed wedi eu canslo. Edrychwn ymlaen yn awyddus i weld y cŵn wrth eu gwaith y flwyddyn nesaf.

**Clwb Ffilmiau Bont-goch Uchaf**

Mae Helen a Giles yn arddangos ffilmiau yn wythnosol ar dalcen tŷ Tanllidiart, Bont-goch er mwyn i'w cymdogion fwynhau, tra'n parchu'r rheolau cadw pellter priodol. Ond mae gofyn gwisgo dillad cynnes iawn os am wrando a gwylio!



# Ysgol Tal-y-bont

Yn dilyn y cyhoeddiad annisgwyl braidd gan Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, ar ddechrau'r mis rydym wedi bod yn brysur iawn yn dechrau paratoi a chynllunio ar gyfer bod yn barod i ail agor yr ysgol ar ddydd Llun Mehefin 29. Yr hyn oedd fwyaf annisgwyl oedd bod y cyhoeddiad yn datgan y bydd hawl gan BOB disgybl ddychwelyd i'r ysgol bryd hynny am gyfnod o ddal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi. Rydym yn disgwyl mwy o wybodaeth ar y broses o ail agor yn fuan er mwyn i ni wybod sut yn union fydd hynny'n gweithio'n ymarferol. Rydym yn gwybod y bydd angen i ni ddilyn canllawiau iechyd a diogelwch llym a chreu asesiadau risg manwl. Bydd yn rhaid i ni gyd gofio golchi dwylo'n drwyadl a chadw pellter cymdeithasol ar bob adeg. Rydym yn gwybod y bydd yr ysgol yn edrych yn bur wahanol i'r hyn ydoedd cyn dechrau'r cyfnod dan glo. Rydym yn sicr mai cynnig cyfnod mewn wythnos i blant fyddwn ni yn hytrach nag wythnos lawn, gyda llai o blant mewn dosbarth ac na fydd modd cynnal yr un math o weithgareddau chwaith. Yn bendant, bydd y pwyslais mwyaf ar gynnal iechyd a lles y disgyblion yn ystod yr wythnosau cyn diwedd y tymor.

Mi fydd yn ddiddorol iawn i weld sut fydd hyn i gyd yn gweithio'n ymarferol a sut fydd pawb yn ymdopi gyda'r newid.

Yn y cyfamser, mae'r athrawon yn parhau i baratoi gwaith pwrpasol a chyffrous 'ar-lein' ac rwyf am fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r staff i gyd am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod yma. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'r holl deuluoedd sydd wedi ein cefnogi dros yr wythnosau diwethaf, ac mae gweld y gwaith y mae'r plant wedi ei gyflawni yn wir yn codi calon.

Hefin Jones




Cacan Gruffalo Teal


Efelychu llun gan Alys



Swyn yn gwylio adar


Gwybodaeth am fwnciod Lela

*'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'*

Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**
(Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau)

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau,
Tirlinio a Chwynu
Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
**01974 261758**
**07792457816**

**mynachgarden@yahoo.com**

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
**helen.iwan@btinternet.com**
01970 832760

# GRŴP COVID-19 TAL-Y-BONT

Bellach mae Grŵp *Covid-19* Tal-y-bont a Bont-goch wedi bod mewn bodolaeth ers tri mis a bu *Papur Pawb* yn holi Eryl Bray a Jenny Fothergill dwy o sylfaenwyr y grŵp.

"Wnaethon ni gyfarfod wyneb yn wyneb ar yr 16eg o Fawrth a dod i'r casgliad bod angen grŵp cyngor a gwybodaeth lleol yn sgil twf y firws. Dosbarthwyd taflen drws i ddrws, crëwyd tudalen *Facebook* a rhwydwaith *WhatsApp*. Gwelwyd ar unwaith na fyddai modd dibynnu ar gysylltiadau uniongyrchol a bod rhaid defnyddio'r We a ffonau symudol. Drwy'r dechnoleg cafwyd 49 o wirfoddolwyr yn barod i estyn cymorth ac mae'r grŵp wedi delio gyda 55 o ymholiadau. Ar y dechrau roedd rhan fwyaf o'r problemau yn troi o gwmpas yr anhawster ynglŷn â beth i wneud nesaf – er enghraifft codi moddion yn amhosib oherwydd na ellid teithio i'r dre. Lluniwyd rhestr o pwy oedd angen beth, ei throsglwyddo i'r fferyllfa a'r gwirfoddolwyr wedyn yn codi'r moddion a'i adael wrth y tŷ. Mae nol moddion hefyd yn enghraifft o'r angen am ofal a chyfrinachedd. Dysgon ni y wers hon yn gynnar yn hanes y grŵp ynghyd ag osgoi cyfeirio at enwau personol. Ffactor arall yw y defnydd o fusnesau lleol, cydweithio gyda Siop y Garej, Cletwr, Siop Spar Bow Street ac wrth gwrs y Fferyllfa.

Yr agwedd nesaf oedd gweithredu fel sianel gwybodaeth a chysylltu ffynonellau lleol, sirol a chenedlaethol. Mae'n dda gweld bod Ceredigion wedi bod yn ffodus – ychydig dros bedwar deg o achosion a saith marwolaeth. Rhaid casglu fod y sustem profi ac olrhain sy wedi ei ddatblygu yn lleol  yn chwarae rhan bwysig. Rôl arall y grŵp oedd cyfeirio pobl at wefannau Cymreig a Prydeinig oedd yn dweud beth allech chi wneud a beth dyle chi wneud o dan y cloi mawr.

Erbyn hyn mae'r grŵp i raddau helaeth yn rhedeg ei hunan a dyna oedd y bwriad. Ni'n dal i gynnal cyfarfodydd bob pythefnos ac yn ymateb yn ôl y galw. Ar y cyfan ni'n teimlo fod y grŵp wedi bod yn llwyddiant. Mae wedi defnyddio technoleg i dynnu'r gymuned at ei gilydd mewn cyfnod anodd a rhoi siawns i ehangu perthynas ac adnabyddiaeth yn yr ardal. Am faint fydd y grŵp yn para? Wel, am faint fydd *Covid-19* yn para? Byddwn ni yma tra bo angen ac ni am ddiolch i Alexis Williams a Linda Denton am eu help."

Rhifau ffôn i gysylltu: Eryl Bray – 077941 80928/ 832568
Jenny Fothergill – 07866 011296/832544.


**Tylino Thai Trefechan**
*Trefechan Thai Massage*
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
**07878 071367**





*Salon Leri*
*Pob agwedd o drin gwallt gan Richard*
*10am-7pm*
*Llun-Gwener*
*(01970) 832 674*



**Garej Davmor**
**Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars**
**Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion**
**Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig**
**Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont**





**Pan fydd hyn i gyd drosodd,**
Nawn ni byth eto
Gymryd yn ganiataol
Ysgwyd llaw gyda dieithryn.
Silffoedd llawn yn y siopau,
Sgyrsiau gyda chymdogion,
Theatr lawn,
Nos Wener allan,
Y ras i'r ysgol yn y bore,
Panad gyda ffrind,
Y stadiwm yn rhuo,
Pob anadl ddwfn,
Dydd Mawrth diflas,
Bywyd yn ei hun.

**Pan ddaw hyn i ben,**
Gawn ni ddarganfod
Ein bod wedi dod
Yn fwy fel y bobl
Yr oeddem eisiau bod;
Y cawsom ein galw i fod;
Y gobeithiwn i fod
A gawn ni aros felly –
Yn well i'n gilydd
Oherwydd y gwaethaf.

Cerdd gan Laura Kelly Fanucci.
Cyfieithiad Glesni Williams.

Diolch i *meddwl.org* am ganiatâd i gynnwys y gerdd yn *Papur Pawb*.

## Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Yn gant oed, fe gollodd y gangen ei haelod hynaf, Mrs Valma Jones, Wern, Tal-y-bont. Roedd yn un o sylfaenwyr y gangen yn 1975 a'r Llywydd cyntaf. Dros y blynyddoedd bu'n hynod o weithgar a brwd a bu'n aelod ffyddlon tra parodd ei hiechyd. Cydymdeimlwn â'r teulu a ffrindiau.

Er nad yw'r aelodau yn medru cyfarfod yn ystod y cyfnod hwn maent wedi bod yn brysur iawn. Bu sawl un o'r aelodau yn gwnïo bagiau pwrpasol ar gyfer gweithwyr y GIG. Trwy'r cyfryngau cymdeithasol rydym wedi gallu cadw cysylltiad â'r Mudiad – mae'r syniadau'n byrlymu ar Curo Corona'n Crefftio, Coginio neu Curo Corona yn y Cartref. Digon o gyfleoedd felly i gadw cysylltiad neu rannu syniadau ond serch hynny mae'r aelodau i gyd yn edrych ymlaen yn fawr i allu cyfarfod eto am baned a sgwrs – a hynny heb fod yn rhy hir gobeithio!

## BroAber360

**gan Dan Johnson**

Mae sbel ers i mi sgwennu ddwetha i Bapur Pawb, ac yn amlwg mae cryn dipyn o bethau di newid ers hynna. Mae'n amser anodd i lawer o bobl, ac felly rydw i'n falch iawn o'r gwaith mae Bro360 wedi, ac yn parhau i neud drwy helpu dros 50 o bapurau bro Cymru i gyhoeddi rhifynnau digidol, a dosbarthu newyddion llawr-gwlad ymhellach na jyst gogledd Ceredigion ac Arfon.

Ta beth, nôl at ein patshyn ni. Ers i'r coronafeirws ein cadw ni i'n tai, da ni di bod yn rhoi sylw i bethau defnyddiol i'r bobol, megis rhestr o fusnesau lleol sy'n cludo bwyd a nwyddau, a chynorthwyo sefydliadau crefyddol lleol i gyrraedd eu plwyfi'n ddigidol. O ran straeon o'r gymuned, mae'n werth darllen diweddariad wythnosol Lloyd Warburton am y sefyllfa yng Ngheredigion. Dyma'r unig le i chi ddarllen colofn wythnosol am sefyllfa ein bro ni, a da ni'n ddiolchgar iawn i Lloyd am hyn.

Mae hefyd ddarnau gwych am bynciau amrywiol, o hanes un o feibion Aberystwyth yn y Rhyfel Byd Cyntaf, i'r newyddion am Faer newydd Aberystwyth – mae siŵr fod rhywbeth at ddant pawb na! Felly cerwch draw i www.broaber360.cymru! Cofiwch fod modd i CHI gyfrannu i'r wefan hefyd – wedi'r cyfan, eich gwefan chi ydy. Os rydych eisiau creu Cyfrif, pwyswch Ymuno ar dop-dde'r sgrin, a dilynwch y camau ar y sgrin.

Yn amlwg, mae bron bob digwyddiad lleol wedi cael ei ohirio oherwydd *COVID-19*, gan gynnwys lansiad BroAber360, oedd fod i ddigwydd ar ddydd Gwener 14 Mai. Ond mae'r sefyllfa yma di dysgu un peth i ni, sef does dim angen bod yn yr un lleoliad i fod yn rhan o ddigwyddiad cymunedol. Dwi'n falch o allu sôn fod lansiad BroAber360 wedi digwydd yn ddigidol rhwng 8 a 12 o Mehefin. Ewch i'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i ddarllen straeon amrywiol a diddorol o'r wythnos, ac i weld be ddigwyddodd, yn enwedig ar ein diwrnod digwyddiadau digidol ar y 12fed!

Os rydych eisiau cysylltu â mi ynglŷn â stori, neu am unrhyw reswm arall, allwch neud drwy e-bostio danieljohnson@golwg.com

# Valma Jones 1919-2020



Ganed Mrs. Valma Jones ar y 13eg o Ragfyr 1919, yn ferch i Lewis a Gwladys Morris, perchnogion melin wlân Ceulan. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont, Ysgol Ramadeg Ardwyn a Choleg Hyfforddi Abertawe a'i harbenigedd yn y Coleg oedd Addysg Gorfforol. Roedd ei swydd gyntaf yn Reading a dyna lle y cyfarfu ag Ithel. Priododd y ddau gan symud yn ôl i Dal-y-bont yn 1947 ac adeiladu Wern. Penodwyd Ithel yn brifathro ysgol y pentref a hithau yn athrawes yn Ysgol Bont-goch. Symudodd i Ysgol Trefeurig yn 1959, ei dyrchafu yn bennaeth yno yn 1971 a dyna lle y bu tan ei hymddeoliad yn 1981.

Roedd yn athrawes wrth reddf ac mae wedi addysgu cenedlaethau o blant yng Ngogledd Ceredigion. Yr hanfodion wrth gwrs – darllen a sgwennu – ond ymdrechai bob amser i baratoi addysg gyflawn. Yn yr ysgolion bychain o dan ei gofal trefnodd gerddorfeydd a sicrhaodd nad oedd yr un disgybl yn dioddef oherwydd maint yr ysgol. Dyma rai o atgofion Carys Briddon o fod o dan ei gofal yn Ysgol Bont-goch:

*Dywedir mai dyddiau ysgol yw dyddiau mwyaf dedwydd ac yn ddi-os mae hynny'n wir os yw plentyn yn cael ei addysg mewn awyrgylch hapus gydag athro neu athrawes ymroddgar. Mrs Valma Jones oedd y brifathrawes – yr unig athrawes – pan oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Elerch yn ystod y 1950au. Dim ond rhyw ddwsin neu bymtheg o ddisgyblion oedd yn yr ysgol a'r rheini i gyd yn Gymry Cymraeg a gan ei bod yn ysgol mor fach, dyna a'i gwnâi yn un mor gartrefol a hapus.*

*Nid dysgu darllen, ysgrifennu a gwneud symiau yn unig oedd ein haddysg feunyddiol, cawsom ddysgu am fyd natur a'r amgylchedd hefyd. Un o'r pethau roeddwn i wrth fy modd bod yn gyfrifol amdano oedd y Bwrdd Natur. Casglai'r plant flodau gwyllt a dod â hwy i'r ysgol. Byddai'r plentyn a ddeuai a'r nifer mwyaf o flodau yn cael gwobr o Lyfr Blodau ar ddiwedd tymor yr haf. Bûm yn ddigon ffodus i ennill un tro ac mae'r Llyfr Blodau hwnnw a gefais gan Mrs Jones yn barchus yn fy meddiant o hyd.*

*Yn Gymraeg y cefais i fy addysg yn yr ysgol, a'r addysg hwnnw yn gychwyniad ardderchog i daith bywyd. Roedd Valma yn adnabyddus i lawer o bobl wrth ei henw cyntaf, ond 'Mrs Jones' fu hi i mi erioed. Diolch iddi am ei hymroddiad a'i charedigrwydd, mae ein dyled yn fawr iddi.*

Ie, y Gymraeg ac roedd y Gymraeg yn un o gonglfeini ei bywyd a wiw i chi fethu dangos parch i iaith ei mam-wlad. Mae stori ei nith Catrin yn nodweddiadol:

*Dwi'n cofio Valma'n dod i gwrdd â mi o'r trên ym Machynlleth yn 2006 – finne wedi teithio'r holl ffordd o Patagonia ac wedi llwyr ymlâdd ond roedd rhaid mynd i'r Co-op. Yno dyma hi'n gofyn i bob un o'r gweithwyr "Ydech chi'n siarad Cymraeg?" a gan mai 'Na' oedd ateb pob un bron, y cwestiwn nesaf oedd 'Aren't you ashamed?' Byddai wedyn yn dechrau sgwrs – ers faint o flynyddoedd roedden nhw'n byw yno, oedden nhw'n mynychu gwersi Cymraeg, oedden nhw wedi derbyn eu haddysg yno? Ac fel yna oedd hi yn Lidl a Morrisons Aberystwyth*.

Conglfaen arall oedd ei chapel. Bu'n ffyddlon i Bethel drwy gydol ei hoes gan roi arweiniad ac ysbrydoliaeth nodedig i'r Ysgol Sul. Mae Ann Jenkins, Llety'r Bugail yn cofio amdani fel cymdoges, hithau yn ferch i Siop Davies a Valma yn y Wern islaw y siop ac hefyd fel athrawes Ysgol Sul:

*Mae gen i atgofion byw o Valma yn athrawes ysgol Sul yn 1949-50. Byddai'n dysgu dosbarth o wyth o ferched yn y galeri ac yn traethu ar y proffwyd Amos. Gallwch ddychmygu nad oedd cyflwyno'r fath destun i griw o ferched ifanc yn hawdd ond roedd yn rial athrawes. Blynyddoedd yn ddiweddarach roedd yn gyson ei phresenoldeb yn nosbarth yr oedolion yn Bethel – mwynhau pob munud ac fel y gallwch ddychmygu yn fwy na pharod i fynegi barn! Hi oedd un o sylfaenwyr cangen Merched y Wawr yn 1975 a'r Llywydd cyntaf. Cymdoges, cyfeilles a pherson a gyfoethogodd fywyd y capel a'r pentref, dyna sut fydda i'n cofio Valma.*

Roedd y croeso yn Wern yn ddiarhebol a bwyd a choginio yn ran annatod o'r croeso. Mewn pryd ar ôl pryd dangosodd ei bod yn gogydd heb ei hail a hyd yn oed yn y blynyddoedd olaf a hithau yn ei naw degau byddech byth yn gadael yr aelwyd heb flasu'r pice neu'r 'gagen' yn ffres o'r ffwrn.

Ar ôl ymddeol yn 1981 profodd, yng nghwmni Ithel, y pleser o deithio. Treuliodd gyfnodau yn Awstralia a mwynhau amser gyda'i theulu yno. Bu'r ddau hefyd yn fynychwyr rheolaidd teithiau Cymdeithas Carafanwyr Cymru a chafwyd llawer o hwyl fel y cofia Diana Jones:

*Cyngor Valma i Ithel (ar roedd yn barhaol ei chyngor fel back seat driver!) dilyna'r garafán wen, sef ein carafán ni. Yn anffodus roedd sawl carafán wen ar y daith ac mae gen i ddarlun clir o ni'n mynd i un cyfeiriad ar ffordd ddeuol ac Ithel a Valma yr ochr draw yn gyrru i gyfeiriad cwbl gwahanol! Mae'n debyg mai'r daith bellaf oedd yr un i Prâg, cyrraedd o'r diwedd ar ôl stopio mewn sawl gwlad ar y ffordd. A dyma sylw Valma ar derfyn diwrnod blinedig, "Diana, ni'n bell iawn o Dal-y-bont."*

Rhoddwyd teyrnged hyfryd i Valma yn amlosgfa Aberystwyth gan ei nai, Iestyn Morris. Oherwydd yr amgylchiadau nifer fechan oedd yn bresennol ond trwy'r dechnoleg bu'n bosib i aelodau'r teulu ym Mhrydain, Patagonia, Awstralia a llu o gyfeillion dalu'r gymwynas olaf.

# Shan Jenkins 1924-2020



Ar ddydd ei phen-blwydd yn 96 mlwydd oed, wedi cystudd hir a blin, bu farw Mrs. Shan Jenkins, Penrhyngerwyn gynt. Ganwyd Shan, yr ieuangaf o dri o blant i William a Mary Thomas yn Sydney, Awstralia. Ymfudodd Mary Thomas a'i chwaer Katherine, y ddwy yn enedigol o Benrhyndeudraeth, i Awstralia i chwilio am fywyd newydd. Yn y capel Cymraeg yn Sydney y cyfarfu Mary a William, a ymfudodd hefyd i Awstralia o Dre'r Ddôl i weithio gyda'i ewythr. Ymhen rhai blynyddoedd dychwelodd y teulu i Dre'r Ddôl pan oedd Shan yn chwech oed. Cafodd ei addysg yn Ysgol Llangynfelyn cyn dechrau ar yrfa o wniadwraig yn Aberystwyth.

Yn ystod y rhyfel, bu'n gweithio mewn ffatri arfau ym Manceinion am gyfnod tra bod ei chwaer Catherine yn y 'WAAF' a'i brawd Jack yn y fyddin yn India. Wedi'r rhyfel, bu ei brawd yn gweithio mewn banc yn Llundain am ychydig cyn dychwelyd i'r fyddin a'r 'Gyrkhas', ond bu farw yn y wlad honno yn dilyn damwain beic.

Priododd Shan a William Jenkins, Ynysgreigiog ym mis Ionawr 1949 yng nghapel Tre'r Ddôl cyn symud i fyw i Ynyseidiol. Cafwyd dau o blant, Margaret a David. Symudodd y teulu i Penrhyngerwyn yn 1959 ac yno bu Shan a William yn amaethu hyd nes i salwch Shan orfodi'r ddau i symud yn ôl i Ynyseidiol i fyw gyda David a'i briod.

Yn berson tawel a hynaws, hwyliog a chroesawgar, yn hoff o dynnu coes ac yn fwy na pharod i eraill dynnu ei choes hi yn ei thro. Er iddi deithio ar draws y byd pan yn ifanc, a rhaid cofio fod y fordaith i Awstralia'r pryd hynny yn chwe wythnos o hyd, person y filltir sgwâr ydoedd mewn gwirionedd. Drwy gydol ei hoes cafodd bleser mawr yn gwnïo ac roedd yr ardd hefyd yn agos iawn at ei chalon bob amser.

Oherwydd cyfyngderau Cofid-19 cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol ym mynwent Llangynfelyn dan arweiniad Y Parch. Richard Lewis. Hoffai'r teulu ddiolch i'r gofalwyr cymdeithasol am ei gofal diflino dros gyfnod maith a hefyd i staff meddygfa Borth am bob cymorth.

CSJ

# Y LLEW DU (Rhan 3) : ‘Swynol ddrygionus annedd’




**Mis diwethaf adroddwyd am yr hwyl a gafwyd yn y Llew Du yn yr 19eg ganrif. Y tro hwn cawn fwy o hanes y cyfnod.**
Er y rhialtwch yn y Llew Du nid oedd pawb yn fodlon gyda’r meddwi a’r miri gan mai dyma oedd y cyfnod pan yr hybwyd dirwest ymhlith capelwyr y fro.

Yn 1867 cyhoeddwyd y canlynol yn y papur newydd *Seren Cymru*:
‘Arwydd y Llew Du.—Neithiwr, Awst 8fed; pan oeddwn ar fy nhaith drwy bentref lle yr oedd tafarndy yn dwyn yr arwydd uchod, cyfarfum â chyfaill ffraeth o fardd, ag oedd yn digwydd dod i’r un cyfeiriad â minnau ac wrth fynd ar hyd yr heol, gofynais iddo am wneyd englyn neu ddau i’r “Llew Du,” ac wedi iddo grafu a chosi tipyn ar ei lechwedd, daethant allan, a dyma nhw;—

*Y “Llew Du” yw cell y d...l – o’i wir swyn*
*Mae’n orsaf uffernawl;*
*Man lle teimlir, honir hawl,*
*Gan ddreigiau’n gynddeiriogawl.*

*Y “Llew Du” a fu yn fedd – i lawer*
*O loewon feib[ion] rhinwedd;*
*Swynol ddrygionus annedd,*
*Dyma nwyd yn damnio hedd.*

Mae‘r iaith yn gref, a‘r darlun yn dywyll ond nid yn ormod felly.
PLUMLUMON’

Nid pawb felly oedd yn mwynhau gwrando ar y baledwyr ac eraill yn perfformio yn y Llew Du.

Cymraeg oedd iaith y gymuned drwyddi draw yn y dyddiau hynny, ac eithrio ymhlith y teuluoedd bonheddig. Mae sylw yn y papur newydd *Yr Amserau* yn 1852 (19 Mai) yn ddadlennol:
‘CEREDIGION: Dydd Gwener, Ebrill 30, cynhaliwyd Maenorlys yn arwydd y Llew Du, Talybont, er rhydd wystlo Pryse Loveden, Ysw, yn Arlywydd [Arglwydd] Maenol [Maenor] Genau’r Glyn; ac ar yr achlysur, dygwyd yr holl weinyddiadau yn mlaen yn yr iaith Gymraeg, gan Graham Williams, Goruchwyliwr Pryse Loveden, Ysw., yr hyn a roddodd foddhad mawr i’r rhai oeddynt wyddfodol [yn bresennol]. Hwn oedd y tro cyntaf yn nghof neb sy’n fyw, i’r llwon gael eu rhoddi yn yr iaith Gymraeg yn y Llys hwn. Yr ydys wedi trefnu i derfynau y Faenor helaeth hon gael eu cerdded yn ddioed; dechreuir yn Moelynys ar 25 o’r mis hwn, a thybir y byddis dri neu bedwar diwrnod yn myned dros y Faenol. Byddai dda i foneddigion y Dywysogaeth yn gyffredinol, pe gofalent am gael goruchwylwyr a allent efelychu Mr. Graham Williams, trwy weinyddu eu goruchwyliaeth yn iaith y werin Gymreig.’

Ymhlith selogion y dafarn yn ail hanner y 19eg ganrif yr oedd y mwynwyr lleol. Mae’n debyg eu bod yn galw yn y Llew Du ar ddiwrnod tâl i dderbyn eu cyflog wrth un o’r drysau ochr. Roedd y dafarn yn gweithredu hefyd fel banc. Byddai gwragedd y mwynwyr yn ymgasglu ar y patshyn glas mewn digon o bryd i gael eu harian cadw tŷ cyn i’r dynion fynd i’r bar, rhag ofn iddyn nhw yfed pob ceiniog o’u cyflogau prin. Ar y patshyn glas hefyd y byddai ambell i sgarmes waedlyd rhwng y mwynwyr a’r gweision ffermydd lleol a oedd wedi yfed gormod o gwrw yn y ddwy dafarn.

Roedd digon o achosion o fedd-dod yn britho achosion y llys bach yn y cyfnod hwn. Yn y llys ar 6 Ebrill 1865 gwrandawyd ar dri achos gwahanol o fedd-dod gyda’r dihirod i gyd yn cael eu dirwyo 5 swllt a chostau. Yn un o’r achosion, tystiwyd gan y plismon lleol, P. C. Evans, ei bod yn anodd gwahanu Evan Hughes a Lewis Hughes rhag ymladd â’i gilydd wedi iddynt adael y Llew Du yn feddw, tra oedd John Davies yn feddw ac afreolus ar yr un noson.

Trefnid cinio blynyddol ar gyfer y mwynwyr gan berchnogion y gweithfeydd mwyn. Yn y gyfrol **Un Ennyd Fer** ceir llun o aelodau cinio’r mwynwyr o flaen y Llew Du tua 1899.
**Y tro nesaf cawn hanes rhai o denantiaid y dafarn.**
GJ a H Ll

# Dydd a Nos

*Y Datrysiad!*

“Insbector Gareth Prior yn holi Carwyn Bowen am ddeg o’r gloch bore Llun yr unfed ar hugain o Hydref 2019 ym mhresenoldeb Ditectif Sarjant Teri Owen yng Ngorsaf yr Heddlu Aberystwyth ynglyn â llofruddiaeth Meurig Rhys. Mr Bowen, cyn cychwyn yr holi mae’n bwysig i chi sylweddoli bod hawl gyda chi i droi at eich cyfreithwraig unrhyw adeg yn ystod y cyfweliad. Deall?”

“Rigmarôl.”

“Beth?”

“Rigmarôl, llond cart cachu o rigmarôl! Gwrandwch mistar fflipin ditectif. Os rwy’n cofio mae’r rhybudd wnaethoch chi adrodd fel pader hefyd yn rhoi’r hawl i gadw’n dawel, ateb pob cwestiwn gyda *no comment*. A dyna fydd yn digwydd os na chai gynnal y sesiwn fel dwi’n moyn – sawl *no comment* un ar ôl y llall. Dyma’r ddêl – wna i ddweud yr hanes, rhoi’r ffeithiau ac fe gewch chi holi ar y diwedd. Cytuno?”

Nodiodd Gareth yn anfoddog a dechreuodd Carwyn Bowen ar ei stori.

“Ugain mlynedd yn ôl ces i le yn y Brifysgol. O’n i’n llawn addewid, Lefel A ardderchog, awyddus i ddysgu ac ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf wnes i ennill gwobr fel myfyriwr mwyaf disglair yr adran. Yn yr ail flwyddyn dewis modiwlau ar yr Uchelwyr a theuluoedd bonedd Cymru, sawl un yn cael eu dysgu gan yr Athro Meurig Rhys. Mewn gwirionedd Rhys oedd yn eich dewis chi, nid chi’n dewis y cyrsiau. Pwysleisio pa mor drwm oedd y cynllun dysgu, dangos rhestr ddarllen hirfaith, cyfeirio at y seminarau wythnosol a manylder y gofynion asesu. Os o chi’n barod i weithio ac yn dangos diddordeb, gwir ddiddordeb, o chi mewn, un o’r dethol rai ar y llwybr at ddosbarth cyntaf.

“I gychwyn roedd y peth yn ddigon diniwed: cynnal tiwtorial personol i gynghori fi ar draethawd; benthyg llyfrau o’i gasgliad preifat; trefnu ymweliad â’r Llyfrgell Genedlaethol i archwilio llawysgrifau. Ac yna dechreuodd yr hunllef. Sylwadau am ddillad, pa mor dynn oedd y jîns, eistedd yn nes, cyffwrdd braich, llaw ar glun. Daeth y cyfan i benllanw un prynhawn pan ymosododd Rhys yn rhywiol. Wnes i wrthod a rhedeg o’r stafell. Dweud wrth ffrind a hi’n cynghori i wneud cwyn. Wnaeth rhywun wrando, wnaeth rhywun gydymdeimlo? Sgersli bilif, man a man i chi roi bet ar asyn yn ennill y Grand National. Fi oedd ar fai a chyfeillion dylanwadol yr Athro’n adeiladu wal amddiffynnol o’i gwmpas. Pawb yn credu fe a neb yn credu fi. Cwrs coleg yn rhacs, gadael ac yn dilyn cyfnod o iselder a salwch meddwl, llwyddo i gael gwaith mewn cyfres o gartrefi hen bobol.

“Ymdrech i greu bywyd newydd ag enw newydd, Ceri Benson yn ddarn o’r broses o ddweud ta-ta i’r gorffennol. Yn y bôn ffaelu. Dal i ddarllen a chlywed am yr hybarch Athro, doethinebu fan hyn, darlithio fan draw, berwi am yr anghyfiawnder a phendroni shwt alle ni ddial ar y diawl. A’r cyfle yn dod pan laniodd Rhys yn Brynawelon i ymweld â chyfaill oedd yn breswylydd. Methu credu, y dyn ei hun ar stepen y drws ac yn sgwrsio’n dawel a heddychlon fel un o seintiau’r genedl. Bues i’n eithriadol o garcus, cadw yn y cefndir, symud ymlaen un cam ar y tro. Nawr, byddwch chi’n holi pam nad oedd Rhys wedi cofio pwy o’n i? Ffaith gyntaf – yr enw ffals. Yn ail, mae person yn newid cryn dipyn mewn ugain mlynedd ac roedd Carwyn Bowen y myfyriwr yn wahanol iawn i Ceri Benson y nyrs. Y gwallt hir wedi mynd, colli pwysau ac o ganlyniad i’r salwch meddwl wedi heneiddio tu hwnt i’r blynyddoedd. Wastad wrth law i gynnig paned i Rhys, gwenu, canmol am ei ffyddlondeb at ei ffrind a fe yn cael ei blesio – Rhys yn hoffi cael ei ganmol. Sefydlu perthynas a’r gyfaddefiad un diwrnod mor unig oedd e. I dorri’r stori’n fyr cynnig gwasanaeth fel nyrs a gofalwr ag yntau yn derbyn fel siot. Rwy’n siŵr bo chi wedi ffeindio’r gweddill – y drygio, dosio’r wisgi, troi nos yn ddydd, a’r negeseuon cas yn chwarae ar ei euogrwydd am ei rywioldeb.

“O ddydd i ddydd yn Penlan gofal parhaol. Osgoi sôn am y gorffennol a bod yn ben-agored am deulu a magwraeth. Hefyd osgoi dangos diddordeb yng ngwaith a gyrfa Rhys – creu’r ddelwedd bod academia yn fyd estron a rhyfedd. Sylfaen yr holl gynllun, y thril o fod â’r pŵer i greu dibyniaeth ar unigolyn ddinistriodd fy mywyd i oedd nawr ar fin cael ei ddinistrio. A dyna ni, wnâi ddim dweud shwt wnes i ladd, mae gyda chi hen ddigon o dystiolaeth i fynd â’r achos i’r llys.”

Distawrwydd llethol a dorrwyd gan Gareth, “pam y sioe o gyflwyno y’ch hun fel menyw?”

Gwenodd Bowen, “ Nid fi. Y fenyw drws nesa’ roddodd y syniad, galw fi yn Miss. Meddwl, handi, lleihau’r siawns o gael fy adnabod a cyfle i chwyddo clecs a chleber Dol-y-Gaer. Dwi’n gyfarwydd â thrigolion pentref cefn gwlad, dwi wedi byw mewn pentref tebyg. Os oedd pawb yn tybio fod yr Athro yn cael tamed gyda honna yn Penlan, grêt. Neb yn amau mai dyn oedd yno go iawn. Doedd e ddim yn anodd, pwy welodd fi? Y doctor, y gymdoges, y ficer a’r trydanwr. Y pedwar yn cymryd yn ganiataol mai dynes oedd yn gwisgo’r iwnifform. Wnes i hyd yn oed dwyllo’r doctor yn ystod ymweliad ar hast ac erbyn hynny roedd Rhys mor dwlali â babi newydd. Am bawb arall cadw digon pell a byw ar y glonc.”

Cafwyd saib arall cyn i Teri fentro gofyn, “yr ochr gorfforol, wnaethoch chi...?”

“Wnes i gysgu gyda’r pwff? Ateb, sawl ffordd i blesio hyd yn oed y lembo fel yr Athro Meurig Rhys. Falle byddwch chi’n chwerthin ond cynhaliwyd seremoni yn y tŷ ar ffurf gwasanaeth priodas, fi yn addo tra’n sipian siampên i fod yn ffyddlon iddo fe a Rhys yn addo yr un ffyddlondeb, hyd angau. Meddyliwch, hyd angau! Bisâr ac ych-a-fi. Rhys yn disgrifio’r seremoni fel digwyddiad emosiynol, un o brofiadau mwyaf hapus ei fywyd ac yn cloi drwy ddatgan llwnc destun, ‘iechyd da, diolch am chwalu’r ofn o farw’n unig ar ben fy hun.’ Eironig o ystyried fod marwolaeth y cythrel yn prysur agosáu.”

*Gobeithio i chi fwynhau’r stori a diolch i Papur Pawb am y cyfle i gyrraedd darllenwyr newydd. Geraint*




# Cletwr


Jules yn dangos ein stoc newydd

**Mae'r siop yn dal i fod yn brysur, ond mae nifer o bobl wedi gofyn am ein sefyllfa ariannol. Ydy Cletwr yn ddiogel? A fydd angen inni gau os bydd y sefyllfa bresennol yn parhau am fisoedd?**
**Wel, mae'n newyddion cymysg.**

Ar hyn o bryd, mae'r caffi ar gau ac mae mwyafrif staff y caffi ar '*ffyrlo*' (cas o air!) felly mae'r llywodraeth yn talu eu cyflog (am y tro), ond mae'r trefniadau yn y siop yn gymhleth. Fel arfer mae 2 neu 3 staff yn gyfrifol am redeg y siop (dim i gyd ar yr un pryd), gyda nifer o wirfoddolwyr yn gweithio ar y til ac yn roi stoc ar y silffoedd. Ar hyn o bryd mae'n anodd defnyddio gwirfoddolwyr - mae nifer yn hunan-ynysu ac mae'n saffach cadw at griw bach o bobl. Mae mwy o waith iddyn nhw hefyd – mae trosiant yn y siop i fyny rhyw 40%, ond rhaid i Karen a'i chriw dreulio mwy o amser yn archebu stoc – mae llawer o bethau heb fod ar gael, felly rhaid cysylltu â chyfanwerthwyr eraill i geisio cael cyflenwad. A gyda llawer o bobl yn rhoi archebion i mewn i'w casglu, yn hytrach na dod i mewn i'r siop, mae angen staff ychwanegol i baratoi'r archebion.

Fel canlyniad, mae costau staff yn y siop wedi codi cryn dipyn. Mae incwm wedi codi hefyd, wrth gwrs, ond dim i'r un raddfa. Ar hyn o bryd rydyn ni'n colli rhyw £500 yr wythnos. Ond mae'n hanfodol i ni barhau, gan fod cynifer o bobl yn ein cymuned yn dibynnu arnom.

Diolch i bolisi doeth, mae'r bwrdd wedi bod yn creu cronfa wrth gefn – fel y dylai unrhyw fusnes ei wneud. Mae'n bwysig cael digon o adnoddau wrth gefn i oresgyn problemau mawr, ond roedden ni'n meddwl am bethau fel tân, neu fyrgleriaeth ddifrifol, neu ddamwain. Mae yswiriant 'da ni wrth gwrs, ond dydy hyn ddim yn talu am bopeth. Roedden ni'n ceisio cael digon i wrthsefyll cau am ychydig fisoedd heb golli staff.

Hyd yn hyn rydyn ni wedi gwario dros £5000 allan o'r gronfa wrth gefn. Ond newydd gael newyddion da - rydym wedi derbyn y grant o £10,000 gan Lywodraeth Cymru, diolch i dipyn o ymgyrchu gan Elin Jones ac Ellen ap Gwynn, ymhlith llawer. (Doedd busnesau dielw ddim yn gymwys am y grant gwreiddiol).

Felly, rydyn ni'n ddiogel am y tro, ond dim am byth. Bydd y sefyllfa yn gwaethygu cyn bo hir, pan fydd hawl inni ail-agor y caffi, ac ail-gyflogi'r staff, ond heb gael cynifer o gwsmeriaid – efallai tan yr haf nesaf.

Beth allwch chi ei wneud i helpu cadw Cletwr ar agor?

Cewch wneud rhoddion wrth archebu, wrth gwrs, ond y peth gorau yw defnyddio'r siop cymaint ag sy'n bosibl (a'r caffi unwaith mae'n agor).

Mae llawer mwy o ddewis yn y siop erbyn hyn, yn arbennig ffrwythau a llysiau ffres, a chig o Rob Rattray, a Cigydd Bow Street ac weithiau cig dafad hefyd (Mae'n hynod o flasus!). Mae llawer o deuluoedd bellach yn gwneud eu siopa wythnosol i gyd yn Cletwr. Dim angen talu am betrol i Aberystwyth, a llawer llai o bobl o gwmpas nac yn *Morrisons* neu *Tesco*. Mae'r staff yn Cletwr yn rhoi iechyd a hylendid ar flaen y gad. Dim mwy na 3 yn y siop ar yr un adeg, hylif hylendid ymhobman, glanhau basgedi ar ôl bob person ayyb.

Felly, dewch i mewn (neu anfon archeb i'w gasglu neu ddosbarthu – manylion ar y wefan).

*Nigel Callaghan*

## ENNILL CYSTADLEUAETH BRYDEINIG


*Yn y llun gwelir Stephen yn gosod tri darn o bren wedi eu plygu i ddal y darllenfwrdd. Mae'r un darnau yn gwahanu ar y gwaelod i roddi cydbwysedd perffaith i'r ddarllenfa.*

**Ers i erthygl am Stephen Owen, Rhoslan ymddangos ym Mhapur Pawb y llynedd mae ei waith wedi ennill enwogrwydd pan ddyfarnwyd ei ddarllenfa a bwrdd cymun yn gyntaf gan Gymdeithas Celf a Christnogaeth Prydain. Dathlu llwyddiant ac amrywiaeth gwaith artistig mewn adeiladau crefyddol mae'r gymdeithas ac fe'u dyfernir bob pedair blynedd mewn dau gategori, am waith parhaol neu dros dro. Daeth gwaith Stephen i'r categori 'parhaol' gan ei fod i'w weld yng Nghapel Gweddi, Eglwys Y Bedyddwyr Guildford (Moorfield). Dan ystyriaeth yn yr un categori roedd enghreifftiau o waith penseiri ledled Prydain ond y darn o dderw byw – sef yr allor a'r ddarllenfa gydag hoelen, oedd orau ym marn y beirniaid. Panel o bwysigion ym myd celf oedd y beirniaid yn eu plith curadur hŷn y V&A.**

Yn sgîl ennill y gystadleuaeth, ac fel un sydd gyda'i wraig Janet yn mynychu eglwys Sant Mathew, Y Borth, cafodd Stephen gomisiwn gan Elizabeth Evans i greu darllenfa i'r eglwys er cof am ei gŵr John Glynne Evans a fu yn warden a thrysorydd yr eglwys am bedwar deg mlynedd. Dywed Stephen, 'Mae'r rhan fwyaf o linellau capel neu eglwys yn syth ond does dim llinellau syth yn y cread. Dysgir ni i ddilyn llwybr Crist sydd byth yn hawdd nac yn syth ac felly mae'r ddarllenfa wedi ei chreu ar ffurf mwy rhydd. Gan fod pregethwyr erbyn heddiw yn tueddu yn fwyfwy i siarad o gorff yr eglwys yn hytrach nag esgyn i'r pulpud gwneir cryn ddefnydd o'r ddarllenfa newydd i ddal nodiadau, y Beibl a cherddoriaeth'.







# CORON EI GYRFA

**Mae'r gyfres deledu *The Crown* ar *Netflix* wedi bod yn eithriadol lwyddiannus ac wedi denu miliynau o wylwyr ar draws y byd. Drama hanesyddol yw'r gyfres sy'n olrhain teyrnasiad y Frenhines Elisabeth II dros gyfnod o 1947 hyd y presennol. O un pennod i'r llall cawn ddilyn bywyd a gwaith y Frenhines yng nghyd-destun prif ddigwyddiadau dri chwarter canrif ac yn erbyn cynfas helyntion y teulu brenhinol. Enillodd y gyfres lu o wobrwyon a chanmoliaeth uchel am safon yr actio a'r cynhyrchu.**

Un a gyfrannodd at y llwyddiant yw Llinos Wyn Jones, merch y diweddar Goronwy a Tegwen Jones, gynt o Glasgoed Tal-y-Bont. Mae Llinos wedi gweithio fel Goruchwyliwr Sgript ar saith pennod o'r gyfres gan gynnwys y bennod ar Drychineb Aberfan.

Beth felly yw gwaith y Goruchwyliwr Sgript? Y prif gyfrifoldeb yw sicrhau cysondeb dilyniant wrth i'r ffilm neu'r cynhyrchiad teledu gael ei saethu. Mae hyn yn cynnwys gwisgoedd, colur a gwallt, dodrefn a symudiadau a geiriau'r actorion. Mae Llinos yn esbonio nad yw cynyrchiadau'n cael eu saethu mewn trefn gronolegol – y drefn fyddwn ni'n weld ar y sgrin. Efallai bod nifer o olygfeydd wedi'u lleoli yn Seville yn Sbaen ond am resymau cost allwch chi byth symud yr holl sioe, criw ffilmio ag actorion i'r lleoliad sawl gwaith. Defnyddir y lleoliad unwaith yn unig a rhaid i'r Goruchwyliwr gymryd nodiadau sy'n sail wedyn i'r broses holl-bwysig o olygu ac yn sicrhau fod y cynhyrchiad yn cadw at amserlen a thrwy hynny at y gyllideb. Mae'n waith eithriadol o fanwl, un gair, un symudiad anghywir ac fe gollir y cysondeb ac yn naturiol mae llygaid barcud y gwylwyr yn gweld y mistêc.

Ers dyddiau ysgol yn Llanfyllin roedd gan Llinos ddiddordeb mewn drama ac yn arbennig yn y geiriau a ddefnyddiwyd gan y dramodydd. Ar ôl graddio yn y Gymraeg aeth i swydd yn y BBC gan gychwyn ar y rhaglen newyddion Heddiw cyn symud i'r adran ddrama ac yn benodol i weithio ar yr egin opera sebon *Pobl Y Cwm*. Dyma lle dysgodd hanfodion grefft sgriptio gan drosglwyddo i'r actorion yr angen am gysondeb o un bennod i'r llall. Talu sylw i'r manylion lleiaf ar y set yn y stiwdio ac yn arbennig wrth ffilmio yn yr awyr agored. Mewn un ffordd waelodol mae gweithio o dan do yn haws – dyw hi byth yn bwrw glaw yn y stiwdio!

Bellach mae Llinos wedi gweithredu fel Goruchwyliwr Sgript ar restr hir o gyfresi yn Gymraeg a Saesneg. Roedd *Con Passionate* yn troi o gwmpas anturiaethau côr meibion yn lot o hwyl a sbri a'r golygfeydd 'corawl' yn dipyn o her. Yn y gyfres *Y Gwyll/ Hinterland* cafodd y cyfle i ffilmio yng Ngheredigion a chael pleser o ymweld ag ardal ei magwraeth o gwmpas Goginan a Pumlumon. Yr hyn sy'n aros yn y cof am *Sherlock* yw'r profiad o gyd-weithio gyda awdur y sgript Mark Gatiss a'r actor Benedict Cumberbatch.

Yn ôl y rhan fwyaf o asesiadau *The Crown* yw gyfres deledu ddrutaf erioed. Costiodd penodau y cyfnod cyntaf yn agos at



Llinos yn gweithio ar y gyfres yn Seville

£100 miliwn ac mae cost pob pennod rhwng £5 a £10 miliwn. Mae'r ffilmio 'mewnol' yn digwydd yn Stiwdios Elstree ar gyrion Llundain ac fe adeiladwyd setiau enfawr i gyfleu stafelloedd palasaidd ac thu allan i rhif 10 Downing Street. Lleolwyd rhai o'r golygfeydd 'allanol' yn Eglwys Gadeiriol Ely, Coleg Morwrol Greenwich, Lancaster Gate Llundain ac mor bell â De Affrica a Bermuda. Mae Llinos yn cofio mynd i safle castell yn yr Alban oedd i gynrychioli Balmoral. Diwrnod cyntaf yn berffaith, coed yn wyrdd, haul yn gwenu a'r golygfeydd ar eu gorau. Ail ddiwrnod, storm o eira – addasu cyflym!

Y bennod mwyaf ddirdynnol yn yr holl gyfres yw'r un sy'n olrhain hanes trychineb Aberfan. Mewn iard gefn yn stiwdios Elstree mae pentwr o frics, rwbel a thomen lo yn cynrychioli yr hyn oedd yn weddill o ysgol gynradd Pantglas Aberfan a ddinistriwyd yn Hydref 1966. Yn ôl Llinos roedd gweithio ar y bennod yn galed gan fod creithiau'r gorffennol yn boenus o agos ac roedd rhaid troedio'n ofalus i groesi'r bwlch rhwng creu awr o deledu cytbwys tra'n parchu teimladau'r gymuned. Wedi oedi o wyth niwrnod cafwyd ymweliad Brenhinol ac roedd ail greu'r olygfa honno yn anodd ac yn arbennig felly y cwestiwn a ddylai'r Frenhines ddangos emosiwn drwy grio. Ni welwyd dagrau ond ar ddiwedd y bennod mae **yn** crio wrth wrando ar record o gôr yn canu emyn a ganwyd yn yr angladd.

Mae lefel y gwariant a lleoliadau'r gyfres yn ymddangos yn rhamantus a chrand ond i Llinos job o waith yw'r cyfan ac mae ei chyfrifoldebau'n gofyn am ymdrech gyson yn feddyliol a chorfforol. Hi yw'r cyntaf i gyfaddef nad does dim byd yn grand na rhamantus am gychwyn am saith ar fore glawog i weithio dros oriau maith yn oerfel eglwys gadeiriol.

Y prosiect nesaf yw cyfres o'r enw *The Pact* – chwech pennod o stori antur a dirgelwch wedi'i leoli yng Nghaerdydd a Sir Fynwy. Mae ffilmio ar fin cychwyn ac fe welir y gyfres yn gynnar yn 2021. Fel pob cynhyrchiad yn y gorffennol fe fydd hon yn her i Llinos ac yn gam pellach mewn gyrfa lwyddiannus. Ar ei phen bo'r goron!
GIE





# Cornel y Plant

## PRYFAID PRYSUR

**Pam fod pryfaid bob amser mor brysur?**
**Gwenyn yn bomio o un blodyn i'r llall. Chwilod yn croesi'r llwybr fel bod nhw'n hwyr i'r ysgol! Morgrug yn cario eu wyau ar ras i rhywle diogel.**

Wel y rheswm bod pryfaid mor brysur ydy bod gymaint o waith ganddynt i helpu byd natur a ni. Mae lot fawr o jobsys gwahanol gan bryfaid, a bob un yn bwysig i ni. Cymerwch gip ar flodau gwyllt y pentref (fel sydd ar dudalen 12) ac fe welwch chi mai caffi pryfaid ydy'r blodau fel bysedd y cŵn, gwyddfid a llygaid llo mawr. Diod o neithdar sydd fel sirop sydd ar gael mewn caffi blodau, mmmmm!

Pethau bychain ydy pryfaid ond maent yn bwysig dros ben. Hmm, beth arall sy'n fach ond yn bwysig iawn?? Dyma rhai pryfaid sy'n amlwg dros yr haf yn Nhal-y-bont, ac beth maent yn wneud.

**Cacynen gyffredin**
Dwi'n helpu creu ffrwythau i chi, a bob math o fwyd eraill fel aeron a hadau trwy beillio lot o flodau, bzzzzzzzzzzz.

Dwi'n byw mewn hen dyllau llygod.

Dim ond y boss mawr, sef y Frenhines, sy'n gaeafgysgu.

Dim ond y cacwn benywaidd sy'n gallu pigo. LWCOWT!





**Gwas y neidr brown**.
(Hoff bryfyn Lisa)
Dwi ddim yn hoffi blodau ond dwi'n hela pryfaid bach blasus. Dwi'n hedfan wrth y gwrychoedd, ar lan yr afon a rhwng y coed yn yr haul.

Roeddwn i'n byw mewn pwll am sawl blwyddyn cyn trawsnewid (fel *transformers)* mewn i'r heliwr smart yma.
(*Gofal ar lan yr afon rhag ofn i Mam neu Dad syrthio fewn!!)*

**Buwch bach Goch Gota**
Edrycha! Dwi'n sglaffio pryfaid bach llyslau (*aphids)* ac felly yn ffrind mawr i'r garddwyr.

Gallaf fwyta 50 llyslau mewn diwrnod!

Mae fy lliw coch yn rhybuddio adar i gadw draw.



*Lisa Tomos*

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
TEIARS HUW LEWIS TYRES
HUWLEWISTYRES.COM
Glanyrafon
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

## Y Gair Olaf



Mae'r cyfnod diweddar wedi bod yn gyfnod rhyfedd iawn i ni gyd. Fel arfer dw i ffwrdd yn teithio naill ai yn Efrog yn ymweld â'r teulu, dramor yn cerdded mynyddoedd neu'n ymweld â llefydd diddorol y byd. Fy ffugenw gyda fy ffrindiau yw 'Eryl byth adre'. O ni wedi trefnu ymweld â Tsieina ym mis Chwefror eleni ac wedi gwario oriau yn trefnu llefydd diddorol i ymweld â nhw. Diolch byth penderfynais mewn da bryd i ganslo'r daith!

Fel gwedais ar y dechrau, mae'r cyfnod *Covid* wedi cael effaith ar bawb, ac mae e wedi bod yn gyfnod anodd iawn i lawer o bobl. Rydym ni wedi bod yn lwcus iawn gan fod nifer y bobl sydd wedi dal neu farw o'r firws yng Ngheredigion yn isel iawn o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru a'r Deyrnas Unedig. Serch hynny mae'n rhaid i ni gadw at y rheolau rhag ofn y bydd nifer yr achosion o *Covid-19* yn cynyddu.

Ond mae datblygiadau positif wedi ymddangos yn sgil yr argyfwng. Yng nghanol mis Mawrth penderfynodd grŵp bach lleol sef, Jenny, Linda, Alexis a fi greu '*Grŵp Rhwydwaith Covid*' i gefnogi pobl bregus sy'n byw yn ardal Tal-y-bont a'r rhai oedd yn hunan ynysu. Daeth llawer o wirfoddolwyr i gynnig help. Mae'r grŵp wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae nawr bron yn hunangynhaliol gyda rhan fwyaf o gymdogion yn helpu ei gilydd yn anffurfiol. Mae trigolion yr ardal wedi dod i nabod ei gilydd trwy'r grŵp '*WhatsApp*' a '*Facebook*', pobl o wahanol gefndir ac oedran. Yr her nawr yw i'r gymuned gadw'r ysbryd positif ar gyfer y dyfodol er mwyn cynnal cymuned gefnogol, amrywiol a cynaliadwy.

Mae'r grŵp *Covid* yn cwrdd yn rheolaidd gyda Nia o'r Cyngor Cymuned ac Ellen Ap Gwynn ein Cynghorydd lleol, felly os oes gan rywun syniadau ar sut y gallwn gryfhau/gwella agweddau o'n cymuned, plîs cysylltwch â ni trwy *WhatsApp* neu *Facebook*.

Eryl Bray

# TAR0’R BÊL WEN



**I’r rhai ohonom sy’n hoffi chwarae golff, braf oedd medru dychwelyd i gwrs golff Borth ac Ynyslas yn ystod wythnos gyntaf Mehefin. Mae chwarae golff yn ymarfer corff pleserus a ‘does yr unman saffach y dyddiau hyn na ffyrdd teg a lawntiau’r cwrs lleol. Mae’r cwrs yn agored i aelodau yn unig ar hyn o bryd ac mae nifer o gyfyngiadau wedi’u mabwysiadu gan y clwb er mwyn diogelu’r chwaraewyr.**



Y Middletons

Ers blynyddoedd lawer, bu cysylltiadau cryf rhwng ardal *Papur Pawb* a chlwb Borth ac Ynyslas a gellir gweld adroddiadau cyson yn hen rifynnau’r papur o gampau trigolion lleol, hen ac ifanc.

Ymhlith y rhai a gafodd sylw oedd y diweddar Mrs Sylvia Johnson, Tal-y-bont, a oedd yn gapten adran merched y clwb yn 1980-81 a’r diweddar Jackie Middleton, Tre’r ddôl, a fu’n olffiwr llwyddiannus yn ei ddydd. Mae’n rhaid bod y sgiliau yn ei waed, gan mai ei fab, Brian, sydd hefyd yn y llun, yw capten y clwb eleni. Mae llawer o’r ardal wedi bod yn gapteiniaid, gan gynnwys Steve Evans, Elgar, Harri James, Llannerch gynt, a Karen Evans, Nantllain Isaf, Tal-y-bont. Mae gŵyr a gwragedd hefyd wedi bod yn gapteiniaid, fel John a Janet Morgan, Moelgoch, Tal-y-bont.



Sylvia Johnson

Roedd Peter Basnett, Sŵn y gog, Bont-goch, yn gapten yn 2011-12, ac mae ei blant Angharad a Daniel yn olffwyr ifanc disglair. Cafodd y ddau hyfforddiant gan y clwb ac mae eraill wedi manteisio’n fawr ar hynny, gyda Rhys ap Iolo bellach yn ‘pro’ gyda chlwb golff llewyrchus yr ochr draw i Glawdd Offa.

Ymhlith y rhai a fu’n ddiflino yn cynnig hyfforddiant i’r ifanc dros y blynyddoedd yw Sue Wilson a’i phartner Alan Prytherch, Ffwrnais. Rhoddwyd sylw i Sue yn rhifyn Mawrth 1983 o’r papur. Daeth i’r ardal yn athrawes yn ysgol Plas Einion. Roedd wedi ennill capiau i dîm dan-23 hoci Lloegr ond wedi dod i Gymru, canolbwyntiodd ar ddatblygu ei sgiliau golff.



Sue Wilson

Un a hoffai chwarae golff yn Borth oedd y fferyllydd hynaws, y diweddar David Davies (‘Dai Chemist’). Pan ddechreuais chwarae golff, dywedodd wrthyf am beidio â gadael i’r bêl fach wen fy nghuro i. Gwaetha’r modd, y bêl fach wen sy’n cael y gorau ohonof dro ar ôl tro, ond, tra fy mod yn holliach, byddaf yn ymlwybro i’r Borth ar gyfer ymarfer corff, cael clonc gyda’m mhartner, a gwerthfawrogi’r golygfeydd godidog sydd i’w gweld ar y daith o gwmpas y cwrs. Eilradd i hyn oll yw safon y golff.

GJ

## Sylwi ar Natur

Tra bod y teulu o ysgyfarnogod yn ymgartrefu’n hapus ac yn creu eu gwâl mewn cae rhwng Allt-y-crib a’r môr, trist yw gorfod cofnodi bod teulu’r barcud, am y tro cyntaf mewn pum mlynedd, wedi methu deor yr wyau. Ar y llaw arall mae teuluoedd o gnocell y coed wedi llwyddo unwaith yn rhagor ac mae’r rhai ifanc i’w gweld yn aml iawn o gwmpas yr ardal.

### Tywydd anhygoel Mis Mai

Yn dilyn yr erthygl ar y tywydd yn rhifyn mis Ebrill o Bapur Pawb dyma ystadegau tywydd mis Mai. Cafwyd tri diwrnod yn olynol o 27° C! Dywed Howard Ovens, Frondirion bod y tymheredd o 27° C yn eithriad yng nghanol haf heb sôn am fis Mai a bod cael tridiau yn olynol yn syfrdanol. Chwarter modfedd o law gafwyd yn y mis ac felly, yn enwedig gyda gwynt neu awel sych y dwyrain, o ddim cymorth i’r tir.

Dechreuodd y cyfnod cofiadwy o sychder ar 18 Mawrth a dod i ben 75 o ddiwrnodau yn ddiweddarach ar 2 Mehefin. Roedd y nifer o oriau o haul yn ystod y gwanwyn yn fwy nag y bydd Prydain fel arfer yn cael mewn haf medd y BBC, a gellir cymharu y cyfnod o sychder gyda 1976 ond yn y flwyddyn honno roedd y gwres mawr ym misoedd yr haf.

## Cwis Tomos – Blodau’r Maes

Dyma’r ail gwis a luniwyd gan Tomos Breese, disgybl yn Ysgol Tal-y-bont. Y tro hwn mae Tomos wedi tynnu lluniau o flodau’r maes, Faint ydych chi’n eu hadnabod?

